OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 191(Cy. 36)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) (Diwygio) 2011

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) 2010 drwy dynnu cyfeiriad at adran 82 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 yn y rhestr o swyddogaethau awdurdodau lleol sy'n gymwys mewn perthynas â phlant (Tabl 1 o Atodlen 1) ac a ragnodir fel “swyddogaethau cymorth i deuluoedd” at ddibenion adran 58 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 191(Cy. 36 )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) (Diwygio) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Ionawr 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *1 Chwefror 2011* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mawrth 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 58(2) o Fesur a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) (Diwygio) 2011 a deuant i rym ar 1 Mawrth 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 2010 nawm.1.

**2.** Yn Nhabl 1 o Atodlen 1 i Reoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) (Diwygio) 2010([1]) dileer y geiriau —

"a.82 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (*Cydweithrediad rhwng cyrff GIG ac awdurdodau lleol*)".

*Gwenda Thomas*

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

29 Ionawr 2011

---

(1) S.I. 2010/1701